## Polisi Cadw a Gwaredu Data Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â'r Hysbysiad Preifatrwydd Hysbysiad-Preifatrwydd-Rhagfyr-2023.pdf.

Gwybodaeth gyffredinol

Mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru (CCC) yn casglu, defnyddio, datgelu, trosglwyddo a chadw amrywiaeth o ddata personol.

Mae'r Gymdeithas yn ymrwymedig i ddiogelu gwybodaeth bersonol y mae'n ei derbyn. Pryd bynnag y bydd y Gymdeithas yn derbyn gwybodaeth, mae dan ddyletswydd gyfreithiol i ddefnyddio'r wybodaeth yn unol â'r holl gyfreithiau perthnasol ar ddiogelu gwybodaeth bersonol, gan gynnwys Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU a Deddf Diogelu Data 2018 (cyfeirir at y cyfreithiau hyn gyda'i gilydd yn y polisi hwn fel "cyfraith diogelu data").

Rhan o'r ymrwymiad yma yw sicrhau nad yw data personol yn cael eu cadw am fwy o amser na sydd angen. Mae'r polisi yma'n nodi hyd y cyfnodau y bydd data yn cael ei gadw. Yr egwyddor sylfaenol yw i ddata cael ei waredu, yn ddiogel, cyn gynted bod yr angen amdano wedi pasio.

Nid yw'r Gymdeithas yn casglu mwy o wybodaeth na sydd ei angen i gyflawni ei ddibenion ac ni fydd yn ei gadw'n hirach na'r angen.

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yw'r Rheolwr Data ar gyfer y data y mae'n ei gasglu a'i ddal. Ac eithrio Emyr Mortimer Cyf, sy'n paratoi cyflogau staff, nid yw'r Gymdeithas yn defnyddio unrhyw broseswyr data.

Sut mae'r Gymdeithas yn cael gwybodaeth

Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth bersonol mae'r Gymdeithas yn ei phrosesu yn cael ei gyflwyno'n uniongyrchol a hynny am un o'r rhesymau canlynol:

Cais i ymaelodi.

Yn sgil aelodaeth o Fwrdd y Gymdeithas.

Cais i sefyll arholiad a/neu i apelio yn erbyn canlyniad arholiad.

Cais am wybodaeth.

Bod rhywun am ddod i ddigwyddiad, neu wedi bod i ddigwyddiad.

Mewn cais am swydd – gan gynnwys manylion canolwr.

Er mwyn prosesu cyflog, pensiwn ac yn y blaen i gyflogai. Hefyd manylion cyswllt argyfwng.

Drwy wneud cwyn am wasanaeth cyfieithu neu ymddygiad amhroffesiynol.

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru 50

Eich Hawliau dan Gyfraith Diogelu Data

Mae gennych hawliau amrywiol dan Gyfraith Diogelu Data. Mae'r hawliau hynny yn dibynnu ar y rheswm dros brosesu eich gwybodaeth. Gall y rhain gynnwys (fel sy'n berthnasol):

Eich hawl i fynediad: mae gennych yr hawl i ofyn i'r Gymdeithas am gopïau o'ch gwybodaeth bersonol. Mae'r hawl hon yn gymwys bob amser. Mae yna rai eithriadau, sy'n golygu ei bod yn bosibl na fyddwch bob amser yn cael yr holl wybodaeth y mae'n ei brosesu.

Eich hawl i gywiriad: mae gennych yr hawl i ofyn i'r Gymdeithas i gywiro gwybodaeth rydych chi'n credu ei bod yn anghywir. Mae gennych hawl hefyd i ofyn i gwblhau gwybodaeth rydych yn credu ei bod yn anghyflawn. Mae'r hawl hon yn gymwys bob amser.

Eich hawl i ddilead: mae gennych yr hawl i ofyn i'r Gymdeithas i ddileu'ch gwybodaeth bersonol o dan amgylchiadau penodol.

Eich hawl i gyfyngu prosesu: mae gennych hawl i ofyn i'r Gymdeithas i gyfyngu'r gwaith o brosesu'ch gwybodaeth o dan amgylchiadau penodol.

Nid yw'n ofynnol ichi dalu unrhyw ffi am arfer eich hawliau. Mae gan y Gymdeithas un mis i ymateb i chi.

Cysylltwch â ni os dymunwch wneud unrhyw gais.

Rhannu eich gwybodaeth

Ni fydd y Gymdeithas yn rhannu'ch gwybodaeth bersonol gydag unrhyw drydydd parti at ddibenion marchnata uniongyrchol.

O dan rhai amgylchiadau mae'r Gymdeithas o dan rwymedigaeth gyfreithiol i rannu gwybodaeth, er enghraifft, o dan orchymyn llys. Mewn unrhyw sefyllfa, bydd y Gymdeithas yn bodloni ei hun bod sail gyfreithiol dros rannu'r wybodaeth ac yn cofnodi'r drefn benderfynu a'r sail gyfreithiol dros rannu'r wybodaeth.

Trosglwyddo i wledydd y tu allan i'r DU a'r AEE

Ni fydd eich gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo y tu allan i'r DU.

Gwybodaeth Plant

Nid yw'r Gymdeithas yn darparu gwasanaethau i blant nac yn mynd ati'n rhagweithiol i gasglu eu gwybodaeth bersonol.

Dilyn dolen i wefan arall

Pan fydd gwefan, ffrwd Trydar neu dudalen LinkedIn y Gymdeithas yn cynnwys dolenni i wefannau eraill, nid yw ein hysbysiad preifatrwydd yn berthnasol i sut mae'r sefydliad hwnnw'n prosesu gwybodaeth bersonol. Dylech ddarllen hysbysiad preifatrwydd unrhyw wefan yr ydych yn ymweld â hi.

Ymwelwyr â'r wefan

Mae gwefan y Gymdeithas yn gosod ffeiliau bychain “cwcis” neu “briwsion” ar gyfrifiaduron sy’n ymweld â’r safle. Dywed Craft - y cwmni sydd yn creu'r meddalwedd rheoli cynnwys - y CMS “At ddibenion GDPR, nodwch nad yw cwcis diofyn Craft yn casglu unrhyw wybodaeth bersonol neu sensitif. Nid yw cwcis diofyn Craft yn casglu cyfeiriadau IP. Nid yw'r wybodaeth y maent yn ei storio yn cael ei hanfon at unrhyw drydydd parti. Defnyddir cwcis diofyn Craft yn unig i gyfathrebu â'ch gosodiad Craft at ddibenion dilysu defnyddwyr, dilysu ffurflenni / diogelwch, a gweithrediadau cymhwysiad gwe sylfaenol."

Nid yw’r Gymdeithas yn casglu na chadw manylion personol ymwelwyr â’r wefan.

Eich hawl i gwyno

Mae’r Gymdeithas yn gweithio i safonau uchel o ran prosesu’ch gwybodaeth bersonol. Os oes gennych ymholiadau neu bryderon, cysylltwch â ni gan ddefnyddio’r manylion cyswllt isod.

Os byddwch yn parhau’n anfodlon, gallwch wneud cwyn i’r Comisiynydd Gwybodaeth am y modd y mae’r Gymdeithas wedi prosesu’ch gwybodaeth: ico.org.uk

Cyhoeddi ystadegau

Mae’r Gymdeithas yn casglu ac weithiau yn cyhoeddi ystadegau sy’n dangos gwybodaeth fel nifer y sydd wedi sefyll a llwyddo mewn arholiadau yn ei adroddiad blynyddol, ond nid ar ffurf sy’n adnabod unrhyw un.

Trydydd parti

Nid oes gan unrhyw drydydd parti fynediad i’ch gwybodaeth bersonol oni bai bod y gyfraith yn caniatáu iddynt wneud hynny.

AMSERLEN CADW A GWAREDU DATA

| **Categori Gwybodaeth** | **Math o wybodaeth** | **Am faint bydd yr wybodaeth yn cael ei gadw** | **Nodiadau Pellach** |
|---|---|---|---|
| Cais i sefyll arholiad. | Enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn, unrhyw amrywiaethau perthnasol dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Marc a llwyddiant ai peidio yn yr arholiad. Ni hefyd yn gofyn am swyddi/cyflogwr | Os yn llwyddiannus hyd at 3 blynedd (y cyfnod sy’n cael ei ganiatáu i ymaelodi). Os yn aflwyddiannus am 1 blwyddyn. | Bydd y niferoedd sy’n ymgeisio a llwyddo/methu yn cael eu cyhoeddi yn yr adroddiad blynyddol heb gynnwys manylion personol. |
| Papurau Arholiad wedi eu marcio. | Erbyn hyn nid yw’r sgriptiau arholiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol, dim ond cyfeirnod ble nid oes | Bydd sgriptiau papur yn cael eu dileu blwyddyn wedi’r dyddiad olaf i herio’r penderfyniad. | Bydd y niferoedd sy’n ymgeisio a llwyddo/methu yn cael eu cyhoeddi yn yr adroddiad blynyddol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | modd adnabod yr ymgeisydd. | Bydd sgriptiau electronig yn cael eu cadw, heb gyfeirnod fel nad oes modd eu priodoli i berson, at ddibenion hyfforddi. | heb gynnwys manylion personol. |
| Cais i ymaelodi. | Enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn, cyflogwr (os yn berthnasol), cymwysterau. | Am 3 blynedd ar ôl diwedd cyfnod aelodaeth. | |
| Aelod o Fwrdd y Gymdeithas. | Enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn, dyddiad geni, cyflogwr (os yn berthnasol), datganiad o fuddiant. | Am 3 blynedd ar ôl diwedd cyfnod aelodaeth gyffredinol. | Bydd yr enw a'r datganiad buddiant yn parhau mewn cofnodion cyfarfodydd Bwrdd ac ar adroddiadau blynyddol a ffeiliadau yn Nhŷ'r Cwmnïau. |
| Mynychu digwyddiad (diriaethol neu rithiol). | Enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn, anghenion mynediad, manylion swydd neu gyflogwr, anghenion dietegol. | 1 Blwyddyn o ddyddiad y digwyddiad. | Bydd niferoedd fynychodd y digwydd ynghyd a'r niferoedd gydag anghenion mynediad yn cael eu cadw, ac o bosib yn cael eu cyhoeddi heb wybodaeth bersonol. |
| Fideo | Recordiad fideo o ddigwyddiad / digwyddiadau e.e. Diwrnod i'r Aelodau neu recordiadau o Sgyrsiau Dros Ginio | 1 Blwyddyn o ddyddiad y recordiad. | Gellid eithrio fideos sy'n cael eu hystyried o werth archifol, hyfforddiant neu addysgiadol. |
| Cais am swydd | Enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, manylion cyflogwr, anghenion mynediad, addasiadau yn unol â Deddf Cydraddoldeb, manylion cymwysterau, canolwyr. | 1 mlynedd wedi dyddiad penodi i'r swydd. | Bydd y nifer ymgeisiodd ynghyd a'r niferoedd oedd yn gofyn am addasiadau mynediad neu unrhyw fanylion cydraddoldeb yn cael eu cadw ac o bosib yn cael eu cyhoeddi heb wybodaeth bersonol. |
| Manylion Cyflogai | Enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, | 7 mlynedd wedi dyddiad olaf yn y | |

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru 50

| | | | |
|---|---|---|---|
| | manylion banc, manylion pensiwn, geirda, manylion canolwr, cyswllt argyfwng, manylion presenoldeb, a salwch. | swydd – i gyd fynd ag anghenion CThEF. | |
| Cwyn am wasanaeth cyfieithu neu ymddygiad amhroffesiynol | Enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost | 3 Blynedd o ddyddiad setlo unrhyw gwyn. | Bydd y niferoedd sy'n cwyno yn cael eu cadw ac o bosib yn cael eu cyhoeddi yn yr adroddiad blynyddol heb gynnwys manylion personol. |
| Cais am wybodaeth | Enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost | Blwyddyn o'r cysylltiad olaf. | |
| Gwaith papur yn ymwneud â grant Llywodraeth Cymru. | Yn unol â'r cytundeb grant, y llythyr grant a'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â'r grant. | Am ddeg mlynedd wedi dyddiad taliad olaf y grant. | Bydd hyn yn cynnwys cyfriflenni banc sy'n dangos derbyn y grant. |

<u>Dileu data</u>

Pan nad oes gan y Gymdeithas sail gyfreithiol na phwrpas busnes dilys mwyach i gadw data personol, dylid ei ddileu neu ei anhysbysu. Wrth ddileu data electronig, defnyddir dulliau diogel gan sicrhau nad oes modd adfer y ffeiliau, tra defnyddir dulliau corfforol ar gyfer dinistrio dogfennau papur.

Fodd bynnag, mewn amgylchiadau lle mae ymchwiliad neu broses gyfreithiol ar droed, gellir dal y wybodaeth yn gyfreithiol. Golygir hyn ein bod yn cadw data am gyfnod hirach na'r canllawiau uchod, tan y penderfynir bod y mater wedi dod i ben ac nad oes angen cadw'r data bellach.

<u>Newidiadau i'r polisi hwn</u>

Mae'r Gymdeithas yn adolygu'r polisi hwn yn flynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn gywir.

**Cymeradwywyd gan y Bwrdd**: Chwefror 2026

**Dyddiad Adolygu Nesaf:** Chwefror 2027